



14eg o Chwefror 2023

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Anodd credu ein bod ni bron â chyrraedd hanner ffordd trwy'r flwyddyn academiaidd hon. Bu'r hanner tymor yma yn un hynod brysur unwaith eto a diolch i'r staff am gynnig y fath brofiadau i'n disgyblion. Mwynhaodd pawb weithgareddau *Dydd Miwsig Cymru* Dydd Gwener diwethaf a bu disgyblion yr adran gynradd wrth eu bodd yn cystadlu yn yr eisteddfod gynradd Dydd Mercher. Mae cryn edrych mlaen at eisteddfod gyntaf yr adran uwchradd ers tair blynedd a bydd honno yn digwydd Dydd Iau yma. Fel y gwyddoch, mae diwrnod HMS gyda ni Dydd Gwener yma, y 17eg o Chwefror. Yn ychwanegol i Ddydd Gwener yma, bydd **HMS ysgol gyfan ar y 26ain o Fehefin**, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i ysgolion drefnu HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Nodwch y dyddiad yma os gwelwch yn dda.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn fel rhieni fel y gallwn ddathlu ein llwyddiannau fel ysgol ond hefyd ymrwymo i weithio ar unrhyw agweddau sydd angen eu gwella ar hyn o bryd. Gofynnwn yn garedig felly i chi ein cynorthwyo trwy gwblhau'r holiadur a anfonir atoch gyda'r llythyr hwn erbyn **Dydd Gwener y 3ydd o Fawrth**.

Gan ddiolch yn fawr i chi ymlaen llaw.

14<sup>th</sup> of February 2023

Dear Parents / Carers

It's difficult to believe that we are almost halfway through this academic year. This half term has been an extremely busy one once again and I wish to thank the staff for organising such experiences for our pupils. Everyone enjoyed *Dydd Miwsig Cymru* activities last Friday and the pupils in the primary department were delighted to compete in the primary eisteddfod on Wednesday. There is a lot of anticipation, looking forward to Thursday when the first eisteddfod in the secondary department for three years will be taking place. As you are aware, we have an INSET day this Friday, the 17th of February. In addition to this Friday, there will be a **whole school INSET on the 26th of June**, in accordance with the Welsh Government's instructions for schools to arrange additional INSET for professional learning related to the Curriculum for Wales. Please note this additional date.

We are keen to hear your views as parents so that we can celebrate our successes as a school but also to commit to improving any aspects that are currently less successful. We therefore kindly ask you to assist us, by completing the questionnaire on the link which is sent with this letter **by Friday the 3rd of March**.

Thanking you in advance.

Yn gywir / Yours sincerely

Meinir Thomas